***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2681 (Cy.222)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *17 Gorffennaf 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 75 a 104(1) o Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd 1991(**1**) ac sy'n arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach mewn perthynas â Chymru(**2**), trwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Awst 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Cynnydd yn y ffi archwilio

**2.** Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) 1992(**3**) amnewidir am y ffigur "£14.50" yno y ffigur "£15.50".

### Diddymiad

**3.** Diddymir Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) 1998(**4**) cyn belled â'u bod yn gymwys i Gymru.

(**1**) 1991 p.22.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn belled ag y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1992/1688; diwygiwyd rheoliad 3(1) gan O.S. 1998/978.
(**4**) O.S. 1998/978.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

17 Gorffennaf 2001

(**5**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynnydd o £14.50 i £15.50 yn y ffi sy'n daladwy gan ymgymerwyr am archwiliadau o'u gwaith gan awdurdodau stryd yng Nghymru o dan reoliad 3(1) o Reoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) 1992 (O.S. 1992/1688). Diddymir Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) 1998 (O.S. 1998/978) (a oedd yn darparu cynnydd cynharach yn y ffi) cyn belled â'u bod yn gymwys i Gymru.